Cyllid & Tollau EM

Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith

Cyflwyniad

Cynnwys

Cyflwyniad

Pwy all hawlio? 1

Credyd Treth Plant

Alla i hawlio? 3

Faint alla i hawlio? 4

Beth os gaf fabi newydd? 5

Sut ydych chi'n talu Credyd Treth Plant? 5

Beth os ydw i'n derbyn budd-dal arall? 5

Credyd Treth Gwaith

Alla i hawlio? 6

Faint alla i hawlio? 6

Alla i gael cymorth gyda chostau gofal plant os ydw i'n gweithio? 8

Sut ydych chi'n talu Credyd Treth Gwaith? 9

Sut ydw i'n hawlio neu'n cael mwy o wybodaeth?

Cymorth a chyngor 10

Ôl-ddyddio'ch cais 10

Ymrwymiad Cyllid a Thollau EM

Tu mewn y clawr cefn

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl gydag anableddau, gan gynnwys arweiniad mewn Braille, ar sain ac mewn print bras. Mae'r mwyafrif o'n cynhyrchion hefyd ar gael mewn print bras. Cysylltwch â ni drwy ffonio unrhyw un o'n Llinellau Cymorth os byddwch angen y gwasanaethau hyn.

Mae'r daflen hon yn egluro beth yw Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith, pwy all eu cael a sut i wneud cais.

Cyflwyniad

Mae Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant yn helpu cefnogi teuluoedd â phlant a phobl sy'n gweithio sy'n ennill incwm isel.

Pwy all hawlio?

Mae Credyd Treth Plant yn cefnogi teuluoedd gyda phlant (gall hyn gynnwys plant tan 31 Awst ar ôl eu pen-blwydd yn 16 a phobl ifanc sydd dros 16 ond yn iau nag 20 mlwydd oed). Gallwch hawlio p'un ai ydych yn gweithio ai peidio.

Gall bob teulu â phlant, sydd ag incwm o hyd at **£58,000** y flwyddyn (neu hyd at **£66,000** y flwyddyn os oes plentyn o dan un flwydd oed), hawlio'r credyd yn yr un ffordd.

Mae Credyd Treth Gwaith yn cefnogi pobl sy'n gweithio (boed yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig) ar incymau isel drwy ychwanegu at enillion.

Nid yw Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant yn effeithio ar daliadau Budd-dal Plant, rydym yn eu talu ar wahân.

I fod yn gymwys am gredydau treth, rhaid eich bod yn 16 neu'n hŷn ac fel arfer yn byw yn y Deyrnas Unedig (DU) – hynny yw, Cymru, Lloegr, Yr Alban, neu Ogledd Iwerddon. Nid yw'r DU yn cynnwys Ynysoedd y Sianel nac Ynys Manaw.

Gall rhai pobl gael credydau treth hyd yn oed os nad ydynt yn byw yn y DU.

Ffoniwch y Llinell Gymorth (gweler tudalen 10) am fwy o wybodaeth os nad ydych yn byw yn y DU, ond rydych chi neu eich partner os oes gennych un:

- yn ddinesydd gwlad arall yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA*) neu o'r Swistr ac yn byw yn y DU
- yn was y Goron ac wedi cael eich hanfon tramor neu'n bartner i was y Goron
- yn ddinesydd Aelod Wladwriaeth yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (gan gynnwys y DU) neu'r Swistir, yn byw yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, ac yn derbyn pensiwn y wladwriaeth y DU neu Lwfans Ceisio Gwaith ar sail cyfraniadau.

*Mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn cynnwys holl Aelod Wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn ogystal â Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein.

Efallai na fyddwch yn medru cael credydau treth os ydych yn destun ar 'reolaeth fewnfudo'. Mae rheolaeth fewnfudo'n golygu un o'r canlynol:

- Mae'r Swyddfa Gartref yn dweud fod gennych ganiatâd i aros yn y DU (a adnabyddir fel 'caniatâd i ddod mewn neu i aros') ond rhoddir y caniatâd hwn i chi ar yr amod nad ydych yn hawlio budd-daliadau penodol, credydau treth neu gymorth tai sy'n cael eu talu gan lywodraeth y DU (a adnabyddir fel 'mynd ar ofyn i arian cyhoeddus')
- mae angen caniatâd arnoch i aros yn y DU – unwaith eto adnabyddir hyn fel 'caniatâd i ddod mewn neu i aros' – ond nid oes gennych hwn.

Weithiau os ydych yn destun rheolaeth fewnfudo efallai y byddwch yn medru hawlio credydau treth o hyd, er enghraifft pâr a dim ond un ohonoch sy'n destun rheolaeth fewnfudo.

Ceir mwy o wybodaeth ynghylch y rheolau hyn ar ein taflen wybodaeth WTC/FS5 *Tax credits – coming to the United Kingdom* neu ar ein gwefan yn **www.hmrc.gov.uk**.

Os ydych yn sengl neu wedi gwahanu'n barhaol (er enghraifft rydych yn y broses o gael ysgariad), dylech wneud cais unigol. Mae'n rhaid i chi wneud cais ar y cyd fel pâr os ydych:

- yn briod
- yn ddyn a gwraig sy'n byw gyda'ch gilydd fel petaech yn briod
- yn rhan o bartneriaeth sifil
- yn bâr sy'n cyd-fyw fel petaech mewn partneriaeth sifil.

Rydych yn dal i fod yn bâr hyd yn oed os ydych yn byw ar wahân dros dro – er enghraifft, mae un ohonoch yn gweithio oddi cartref neu rydych ar gyfnod gwahanu ar brawf.

Credyd Treth Plant

Alla i hawlio?

Mae Credyd Treth Plant yn cefnogi teuluoedd gyda phlant.

Gallwch hawlio Credyd Treth Plant os ydych yn gyfrifol am o leiaf un plentyn neu berson ifanc. Does dim rhaid i chi fod yn gweithio i hawlio.

Gallwch fel arfer hawlio Credyd Treth Plant ar gyfer plentyn sy'n byw gyda chi tan 31 Awst ar ôl eu pen-blwydd yn 16. Ar ôl y dyddiad hwn, gallwch hawlio amdanynt o hyd cyn belled â'u bod o dan 20 ac mewn addysg amser llawn heb fod yn addysg uwch neu'n hyfforddiant cymeradwy.

Bydd addysg amser llawn heb fod yn addysg uwch fel arfer mewn ysgol neu goleg, yn astudio ar gyfer cymwysterau fel:

- Lefel A
- 'Scottish Highers'
- Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) ar lefel 3.

Nid yw cyrsiau hyfforddiant cymeradwy'n talu cyflogau ac maent yn cynnwys pethau fel Mynediad at Waith, Adeiladu Sgiliau neu 'Get Ready for Work'.

Os yw eich plentyn yn 16 neu'n 17 ac wedi gadael addysg amser llawn heb fod yn addysg uwch neu'n hyfforddiant cymeradwy, efallai gallwch gael Credyd Treth Plant ar eu cyfer am hyd at 20 wythnos ar ôl iddynt adael. I fod yn gymwys ar gyfer yr wythnosau ychwanegol hyn, rhaid bod eich plentyn wedi cofrestru gydag un o'r canlynol:

- gwasanaeth gyrfaoedd, 'Connexions' neu sefydliad tebyg (yng Ngogledd Iwerddon, yr Adran Cyflogaeth a Dysgu neu fwrdd Addysg a Llyfrgelloedd)
- y Weinyddiaeth Amddiffyn, os ydynt yn aros i ymuno â'r Lluoedd Arfog.

Ni allwch hawlio Credyd Treth Plant am blentyn 16 i 19 mlwydd oed sydd wedi gadael addysg amser llawn heb fod yn addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy ac sy'n:

- gwneud gwaith taledig am 24 awr neu fwy yr wythnos, neu'n
- hawlio budd-daliadau neu gredydau treth ar ran eu hunain.

Faint alla i hawlio?

Rydym yn talu Credyd Treth Plant ar ben Budd-dal Plant ac unrhyw Gredyd Treth Gwaith y gallech ei gael.

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn dangos faint o arian allech chi ei gael ar gyfer y flwyddyn dreth 2010-11 (hynny yw, 6 Ebrill 2010 i 5 Ebrill 2011) os na allwch gael Credyd Treth Gwaith. Gallech gael mwy os ydych yn gweithio.

Mae'r ffigur cyntaf ym mhob colofn yn dangos yr uchafswm sydd ar gael ac yn gostwng wrth i'ch incwm (neu incwm ar y cyd, os ydych yn rhan o bâr) gynyddu.

Yn gyffredinol, mae incwm trethadwy fel:

- tâl o gyflogaeth neu elw drwy weithio i chi eich hun
- rhai budd-daliadau nawdd cymdeithasol, ac
- incwm o gynilion

yn cyfrif fel incwm mewn ceisiadau Credyd Treth Plant yn ogystal â Chredydau Treth Gwaith.

Mae'r nodiadau arweiniol sy'n mynd gyda'r ffurflen gais (TC600) yn egluro mewn mwy o fanylder beth sy'n cyfrif fel incwm.

	Credyd Treth Plant yn unig (£)		
Incwm Blynyddol (£)	**Un Plentyn**	**Dau Blentyn**	**Tri Phlentyn**
Ddim yn gweithio	2,850	5,150	7,455
5,000	2,850	5,150	7,455
8,000	2,850	5,150	7,455
10,000	2,850	5,150	7,455
15,000	2,850	5,150	7,455
20,000	1,360	3,665	5,970
25,000	545	1,715	4,020
30,000	545	545	2,070
35,000	545	545	545
40,000	545	545	545
45,000	545	545	545
50,000	545	545	545
55,000	210	210	210
60,000	–	–	–

***Sylwer**: Os oes gennych blentyn o dan flwydd oed neu sydd ag anabledd, efallai bydd gennych hawl i fwy.*

Beth os caf fabi newydd?

Byddwch yn cael cyfradd uwch o Gredyd Treth Plant, a byddwn yn ei dalu am flwyddyn o enedigaeth y plentyn.

Sut ydych chi'n talu Credyd Treth Plant?

Rydym yn talu Credyd Treth Plant yn uniongyrchol i brif ofalwr holl blant y teulu. Gallwch ddewis i gael taliadau naill ai yn wythnosol neu bob pedwar wythnos a hefyd pwy yw'r prif ofalwr.

Rydym fel arfer yn talu credydau treth mewn i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu.

Beth os ydw i'n cael budd-dal arall?

Os cewch un o'r budd-daliadau canlynol, mae hawl gennych i gael uchafswm y Credyd Treth Plant ar gyfer eich plant:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm
- Credyd Pensiwn.

Credyd Treth Gwaith

Mae Credyd Treth Gwaith yn ychwanegu at enillion pobl sy'n gweithio (yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig) sydd ar incymau isel, gan gynnwys y rhai hynny sydd heb blant. Mae symiau ychwanegol ar gyfer:

- cartrefi lle mae pobl yn gweithio ac mae gan rywun anabledd, a
- chostau gofal plant ymgymhwysol.

Alla i hawlio?

Os ydych yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc gallwch hawlio Credyd Treth Gwaith os ydych yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn **ac** rydych chi neu eich partner yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos.

Os nad ydych yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc gallwch hawlio Credyd Treth Gwaith os ydych chi neu eich partner:

- yn 25 mlwydd oed neu'n hŷn **ac** yn gweithio am o leiaf 30 awr yr wythnos
- yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn **ac**
  - yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos **ac**
  - yn gymwys ar gyfer elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith
- yn 50 mlwydd oed neu'n hŷn **ac**
  - yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos **ac**
  - yn gymwys ar gyfer elfen 50 oed a throsodd y Credyd Treth Gwaith.

Mae'r rheolau manwl ar gyfer pobl gydag anableddau a'r rhai hynny sydd yn 50 mlwydd oed neu'n hŷn sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod o dderbyn budd-daliadau yn y nodiadau sy'n mynd gyda'r ffurflen gais.

Faint alla i hawlio?

Mae swm y Credyd Treth Gwaith rydych yn ei gael yn seiliedig ar eich amgylchiadau, er enghraifft, faint o oriau ydych chi'n gweithio fel arfer, a'ch incwm (neu incwm ar y cyd, os ydych yn rhan o bâr).

Mae'r tabl isod yn dangos faint o arian allech chi gael ar gyfer y flwyddyn dreth 2010-11 (hynny yw, 6 Ebrill 2010 i 5 Ebrill 2011) os ydych yn y gwaith ac yn gyfrifol am o leiaf un plentyn neu berson ifanc.

	Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant (£)		
Incwm Blynyddol (£)	**Un Plentyn**	**Dau Blentyn**	**Tri Phlentyn**
Ddim yn gweithio	2,850	5,150	7,455
5,000[1]	6,660	8,965	11,270
9,050[2]	6,430	8,730	11,035
10,000	6,060	8,360	10,665
15,000	4,110	6,410	8,715
20,000	2,160	4,460	6,765
25,000	545	2,510	4,815
30,000	545	560	2,865
35,000	545	545	915
40,000	545	545	545
45,000	545	545	545
50,000	545	545	545
55,000	210	210	210
60,000	–	–	–

[1] *Tybir bod y rhai hynny sydd ag incymau o £5,000 y flwyddyn yn gweithio'n rhan-amser (yn gweithio rhwng 16 a 30 awr yr wythnos).*

[2] *Mewn teuluoedd sydd ag incwm o £9,050 y flwyddyn neu'n llai, tybir bod o leiaf un oedolyn yn gweithio 30 awr neu fwy'r wythnos (sy'n gyson gyda'r isafswm cyflog o £5.80 ar gyfer y rhai hynny sy'n 22 blwydd oed a hŷn).*

***Sylwer**: Os oes gennych blentyn o dan flwydd oed neu sydd ag anabledd, efallai bydd gennych hawl i fwy.*

Mae'r tabl isod yn dangos faint o arian allech chi gael os ydych chi'n gweithio a ddim yn gyfrifol am unrhyw blant neu bobl ifanc.

Incwm Blynyddol (£)	Credyd Treth Gwaith, ar gyfer y rhai hynny heb blant (£)	
	Person sengl 25 mlwydd oed neu'n hŷn sy'n gweithio 30 awr neu fwy yr wythnos	Pâr, oedolion sy'n 25 mlwydd oed neu'n hŷn sy'n gweithio 30 awr neu fwy yr wythnos
9,050[1]	1,685	3,580
10,000	1,315	3,210
11,000	925	2,820
12,000	535	2,430
13,000	145	2,040
14,000	–	1,650
15,000	–	1,260
16,000	–	870
17,000	–	480
18,000	–	90
19,000	–	–

[1] *Byddai rhywun 25 mlwydd oed neu'n hŷn, sy'n gweithio 30 awr yr wythnos ar Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn ennill £9,050 y flwyddyn.*

Gallwch gael cyfradd uwch o Gredyd Treth Gwaith os ydych chi (neu eich partner, os ydych yn rhan o bâr):

- yn 50 mlwydd oed neu'n hŷn ac yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl hawlio budd-daliadau di-waith ymgymhwysol
- yn berson sy'n gweithio sy'n gymwys ar gyfer elfen anabledd, neu
- mae gennych anabledd difrifol.

Alla i gael help gyda chostau gofal plant os ydw i'n gweithio?

Efallai gallwch gael help ychwanegol gyda chostau gofal plant 'cofrestredig' neu 'cymeradwy'. Dyma'r hyn a elwir yn elfen gofal plant y Credyd Treth Plant. Mae'r nodiadau sy'n mynd gyda'r ffurflen gais yn dweud wrthych beth yw gofal plant 'cofrestredig' neu 'cymeradwy'.

Gallwch ond gael yr elfen gofal plant os ydych yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos. Os ydych yn rhan o bâr, yn gyffredinol bydd angen i chi a'ch partner weithio o leiaf 16 awr yr wythnos. Dim ond un ohonoch sy'n gorfod gweithio o leiaf 16 awr os na all y llall weithio oherwydd eu bod:

- yn sâl neu'n anabl ac yn hawlio budd-daliadau anabledd
- yn yr ysbyty, neu
- yn y carchar
  - ar ddedfryd o gaethiwed, neu
  - yn y ddalfa yn disgwyl am dreial neu ddedfryd.

Mae'r elfen gofal plant yn werth hyd at 80 ceiniog mewn credyd treth ar gyfer bob £1 yr wythnos rydych yn ei wario ar ofal plant cymeradwy. Cyfyngir hwn i £175 yr wythnos os oes gennych un plentyn a £300 yr wythnos am ddau neu fwy o blant. Uchafswm yr elfen gofal plant allech chi ei gael yw naill ai:

- £140 yr wythnos (80% o £175) ar gyfer un plentyn, neu
- £240 yr wythnos (80% o £300) ar gyfer dau neu fwy o blant.

Os ydych yn gwario £100 yr wythnos, mae'r elfen gofal plant yn werth hyd at £80 mewn credyd treth. Os ydych yn gwario £40 yr wythnos, mae'r elfen gofal plant yn werth hyd at £32.

Ychwanegir yr elfen gofal plant at swm y Credyd Treth Gwaith gallwch ei gael. Bydd y swm terfynol yn dibynnu ar eich incwm(neu incwm ar y cyd, os ydych yn rhan o bâr). Rydym yn talu elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith, ynghyd â'r Credyd Treth Plant, i brif ofalwr y plant yn y teulu.

Sut ydych chi'n talu Credyd Treth Gwaith?

Rydym yn talu Credyd Treth Gwaith yn uniongyrchol i gyfrif eich banc neu gymdeithas adeiladu.

Os ydych yn rhan o bâr ac mae'r ddau ohonoch yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos, gallwch benderfynu pwy sy'n cael taliadau'r Credyd Treth Gwaith.

Sut ydw i'n gwneud cais neu'n cael mwy o wybodaeth?

Am fwy o wybodaeth ynghylch credydau treth, ac i wirio os allwch hawlio, ewch ar ein gwefan yn **www.hmrc.gov.uk/taxcredits**

Cymorth a chyngor

Os ydych am becyn cais neu gyngor pellach ynghylch credydau treth, gallwch:

- ffonio ein Llinell Gymorth ar **0845 300 3900**
- defnyddio ffôn testun i ffonio'r Llinell Gymorth (ar gyfer pobl gydag anawsterau clyw neu leferydd) ar **0845 300 3909**.

Pan fyddwch yn ffonio dylech ddweud y canlynol wrthym:

- manylion incwm (a rhai eich partner os oes gennych un) ar gyfer y flwyddyn dreth 2009-10 (hynny yw, o 6 Ebrill 2009 i 5 Ebrill 2010)
- rhif Yswiriant Gwladol (a rhif eich partner).

Ôl-ddyddio eich cais

Mae hyn fel arfer yn digwydd yn awtomatig ac fel arfer gallwn ond ôl-ddyddio eich credydau treth hyd at **dri** mis o'r dyddiad rydym yn derbyn eich cais. I osgoi colli arian sicrhewch eich bod yn gwneud cais cyn gynted â rydych yn meddwl eich bod yn gymwys.

Bydd angen i chi ofyn am ôl-ddyddio os:

- rydych wedi bod yn derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm neu Gredyd Pensiwn.
- rydych ond yn hawlio Credyd Treth Gwaith (nid ydych yn hawlio ar gyfer unrhyw blant).

I ofyn am ôl-ddyddio bydd angen i chi amgáu taflen bapur ar wahân i'ch cais gan nodi:

- eich enw, cyfeiriad a rhif Yswiriant Gwladol
- y dyddiad gwnaethoch gychwyn eich gwaith, neu
- dyddiad cychwyn eich Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm neu Gredyd Pensiwn.

Gwasanaeth Cwsmeriaid

Ymrwymiad Cyllid a Thollau EM

Anelwn at ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel gydag arweiniad sy'n syml, yn glir ac yn fanwl gywir.

Byddwn:
- yn broffesiynol ac yn gynorthwyol
- yn gweithredu'n onest ac yn deg, ac
- yn trin eich materion yn hollol gyfrinachol o fewn y gyfraith.

Anelwn at drin eich materion yn brydlon ac yn gywir fel y gallwch dderbyn neu dalu swm cywir sy'n ddyledus.

Unioni pethau

Os nad ydych yn fodlon â'n gwasanaeth, rhowch wybod i ni beth sy'n bod. Byddwn yn gweithio cyn gynted â phosibl i unioni pethau ac i ddatrys eich cwyn.

Os ydych yn parhau'n anfodlon, gofynnwch i'ch cwyn gael ei chyfeirio at y Rheolwr Cwynion.

Cwsmeriaid gydag anghenion penodol

Rydym yn cynnig ystod o gyfleusterau ar gyfer cwsmeriaid sydd ag anghenion penodol, gan gynnwys:
- mynediad â chadair olwyn i bron pob Canolfan Ymholiadau
- cymorth wrth lenwi ffurflenni
- ar gyfer pobl gydag anawsterau clyw
  - Typetalk yr RNID
  - Dolenni sain.

Gallwn drefnu cymorth ychwanegol hefyd, er enghraifft:
- ymweliadau â'r cartref, os oes gennych symudedd cyfyngedig neu cyfrifoldebau gofalu ac ni allwch gyrraedd un o'n Canolfannau Ymholiadau
- gwasanaethau cyfieithydd
- dehongliad drwy iaith arwyddion
- taflenni mewn print bras, Braille a sain.

Am fanylion llawn:
- ewch ar-lein yn **www.hmrc.gov.uk/startingup** neu
- cysylltwch â ni. Dewch o hyd i ni yn y *Llyfr Ffôn* o dan 'HM Revenue & Customs'

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.

Tîm Gwybodaeth Cwsmeriaid CThEM
Ebrill 2010 © Hawlfraint y Goron 2010

L22134 HMRC 04/10 MMN

Cyllid & Tollau EM